WG35.5.60

# MARWNAD

ER

COFFADWRIAETH AM Y DIWEDDAR

# MR. DAVID GRIFFITHS,

PREGETHWR

PERTHYNOL I'R ANNIBYNWYR, YN ZOAR,
CASTELLNEDD,

YR HWN A FU FARW EBRILL 6, 1859, YN
56 MLWYDD OED.

**GAN WILLIAM EVANS,**
TYLLWYD, GER CASTELLNEDD.

ABERTAWY:
ARGRAFFWYD GAN E. GRIFFITHS, HEOL-FAWR.
1860.

X205309215

# MARWNAD.

Mae'n cyfeillion hoff yn myned
   Oddiyma yn barhaus,
Tua'r wlad ag nad oes ynddi
   Neb yn arfer unrhyw drais.
Yno byddant yn ddifethiant,
   Yn rhoi'r mawl i Dri yn Un;
Idd eu mysg y dyger ninau
   Ar eu hol, sy'n teimlo'n flin.

Da fu genym eu cyfeillach
   Ar amserau, yma a thraw,
I ymddyddan am drysorau
   Mawrion bethau'r byd a ddaw;
Pan y gwnelent ein hysbysu
   Eu profiadau gyda gwres;
Cyn y byddent i ymadael
   Mynych y derbyniem les.

Ar y chwechfed dydd yn Ebrill,
   Oed ein Harglwydd deunaw cant,
A phum' ddeg a naw o flwyddi,
   Aeth y son dros fryn a phant,
Am 'madawiad rhai ffyddloniaid
   Fu dan bwys a gwres y dydd:
Yn enwedig, DAFYDD GRIFFITHS—
   Colli hwn mawr golled sydd.

Fe ddechreuodd fyn'd yn ieuanc,
   Yn aml tua Bethl'em Green,

Lle y cafodd ei addysgu
  Yn gywir yn ei iaith eu hun ;
Cyrchodd yno yn ddiflino,
  Trwy fawr rwystrau lawer iawn,
Nes y darfu iddo ddangos
  Ei fod yn meddianu dawn.

Fe lafuriodd dros flynyddoedd
  Yn yr ysgol enwog hon ;
Gyda'r pwnc, a dweud pennodau
  Byddai'n teimlo'i hun yn llon.
Ond, fe deimlai'n fwy neillduol,
  Pan ddilynai yma a thraw
Faith filltiroedd, i gael profi
  Pwy a saif y dydd a ddaw.

Cerddodd ef hyd Bontneddfechan,
  Yn ddifaich i'w dilyn hi ;
'Roedd ei ysbryd yn gwresogi
  Wrth ymdeithio gyda'r llu ;
Ac ar ol cyrhaeddyd yno,
  O mor siriol oedd ei wedd ;
Pan y byddai'n myn'd i atteb
  Thomas James, o Gastellnedd.

Darfu iddo brofi'r Jameses
  Yn athrawon cywir iawn,
A llaweroedd heblaw iddo,
  A gynnyddent trwy eu dawn ;
Rhai a dystiolaethant heddyw
  'R hyn a dystiodd lawer tro,
Y pethau ddysgent oddiwrthynt
  Na ddiflanant byth o'u co'.

Rhaid cyfaddef, er mor ddiwyd
  Y bu ef yn moreu'i dydd,

Eto am ychydig amser
  Ca'dd ei ddenu i fod ynghudd,
Nes i'r enwog Daniel Griffiths,
  Trwy ei weinidogaeth frwd,
I effeithio ar ei beiriant,
  Hyn a gliriodd ffwrdd ei rwd.

Nid oedd ef ond dwy-ar-hugain
  Pryd y gwnaeth broffesu'r ffydd;
Gydag un o'r dynion blaenaf
  Ymddangosent yn ei ddydd;
'Rhwn a'i profodd ac a'i dygodd
  Mlaen uwchben yr aberth hedd,
Yngwydd tyrfa anarferol,
  Yn hen Zoar Castellnedd.

Buan iawn y casglwyd wrtho,
  Wrth ymwneyd â moddion gras,
Byddai iddo godi'n amlwg,
  A bod yn ddefnyddiol was;
Am ei fod yn meddu doniau,
  Na chaed eu bath yn un o fil,
A'i fawr ymdrech i ymgadw
  O fewn terfynau'r llwybr cul.

Byddai mewn cyfarfod gweddi
  Yn gwresogi pawb o'r lle;
Pan o flaen y drugareddfa
  Tywynai lawr drysorau'r ne',
I ddiwallu ein hangenion
  'Nol yr angen i bob un;
Gyda bloedd, fe roddai ddiolch
  Am achubiaeth euog ddyn.

Mewn cyfeillach bu yn effro,
  Denai bawb i dd'od i dre,

I gael profi eu cyflyrau
  O flaen santaidd ddeddfau'r ne',
Gan fynegu nad yw'r broffes
  'N un lleshad heb godi'r groes;
O mor fawr yr oedd ei ymdrech
  I'w cael oll at angeu loes.

Ar agoriad Zoar Newydd,
  'R ymgynnullodd dirfawr lu,
Pryd y clywyd Dafydd Griffiths
  'N adrodd gweddi'r doeth yn hŷ,
Ar gysegriad mawr y deml,
  Yngwydd miloedd Israel Duw;
Gwnai ei wedd a'i lef soniarus
  I'r holl dorf i deimlo i'r byw.

Pan gyrhaeddodd saith ar-hugain,
  Gwnaeth yr Eglwys o un fryd,
Osod arno ef yn galed
  I roi'i hun o flaen y byd,
I ddatguddio ei drueni
  A'r ffordd i'w gadw trwy yr iawn,
Nes y gwnaethant ei orchfygu
  I fod 'nol eu cais yn llawn.

Fe fu yma naw-ar-hugain
  Yn wyliedydd ar y mur,
I rybuddio am beryglon,
  Rhag niweidio Salem wir;
Gyda galw crwydriaid Israel
  O Basan draw a Syria bell,
I ddychwelyd tuag adre'—
  'Nol i'r santeiddiolaf gell.

Sain ei lafar oedd ryfeddol;
  Caed ei glywed ef o bell,

Pan ddatganai yn dra pheraidd
  Eangder mawr y golud gwell,
Gan hysbysu ei addasrwydd
  I ddiwallu'r tlotaf rai,
Nes y denai lu o honynt
  Dd'od i'w dderbyn a'i fwynhau.

Ei brif amcan yn wastadol
  Oedd cael dyn o hono'i hun,
I ymorphwys ar Gyfryngwr,
  Gànai'n wyn y duaf un ;
Trwy ymofyn am ei Ysbryd
  Sy 'n cymhwyso ar y daith,
Gan ei annog ef i ddysgwyl
  Gwobrwy 'r trag'wyddoldeb maith.

Mwy na thri deg o filltiroedd
  Cerddodd ar y santaidd ddydd,
Gyda rhoddi ei bregethau ;
  Profi hyn nid anhawdd fydd,
Gan y cyfryw o'i gyfeillion
  Wyr ei deithiau yn y glyn ;
'R oedd ei galon ynddo 'n llosgi,
  Pan yn dangos Iawn y bryn.

Anhawdd fyddai cael mwy ufydd,
  Wrth yr alwad yma a thraw ;
'R oedd y wlad oll yn ystyried
  Ei fod ganddi wrth ei llaw ;
Am na fyddai byth yn pallu
  I'r rhai tlotaf dan y ne',
Ond ai 'n rhwydd yn ddiwahaniaeth,
  A phregethai trwy 'r holl le.

Caiff ei gofio trwy 'r eglwysi,
  Yn y Siroedd amser hir ;

Rhai bu iddo i ymweled
  Mewn mawr zel o blaid y gwir;
Fel na chelodd ddim o'r cynghor
  Roddwyd iddo gan ei Dduw;
Fe ddaw eto i'w cyfarfod
  Dydd y bernir dynolryw.

Er ei fod yn wrol yma,
  Yn ymddangos megys cawr,
I withsefyll ei elynion,
  Heb roi byth ei arfau lawr;
Eto mae yn fil gwrolach
  Wedi cael y brwydrau hyn,
'N awr yn mysg ei hen gyfeillion,
  A'i fawl am goncwest pen y bryn.

Ni chaiff yno ddyfroedd Mara,
  Ni chaiff yno surion ddail;
Ni chaiff yno unrhyw flinder,
  Yn nghwmpeini Adda 'r ail;
Dim ond gwledd o basgedigion
  Wnaethpwyd gan ei Arglwydd mawr,
Brofodd ar y ddaear isod
  Yn nghymundeb teulu 'r llawr.

Yna mae y lleill o'n brodyr
  Ddygwyd drosodd yr un dydd
Ag y dygwyd DAFYDD GRIFFITHS,
  Gan y gweision penaf sydd;
Sef angelion y goleuni,
  Gwyr cyfarwydd yn eu swydd;
Trwy eu gweinidogaeth ryfedd
  Cawsant hwy eu ffordd yn rhwydd.

Ceir eu gwel'd yn d'od o Gattwg,
  Samlet hefyd, a'r Alltwen,

Gydag ereill o fynwentydd;
  Neb yn isel mwy ei ben;
Yn eu gwisgoedd gogoneddus,
  Dysgleiriach na goleuni 'r dydd,
Pan gyfodir pawb o'r meirw;
  I'r holl saint mor hyfryd fydd.

Deued gwlith y bryniau oesol
  Ar eu gweddwon hwy bob un;
A'u hamddifaid fyddo 'n derbyn
  O gawodydd dwyfol rin;
Fel y caffont oll eu noddi
  Gan ragluniaeth ddoeth y nèn,
A chyfarfod yn y diwedd
  O fewn caerau 'r nefoedd wen.

Bydded idd eu holl berth'nasau,
  A'u cym'dogion hoffus hwy,
Gyda 'r byd yn mhob sefyllfa,
  Orphwys mwy mewn marwol glwy';
Tra mae 'n amser cymeradwy,
  Cyn i'r adeg dd'od i ben,
Fel y byddom mewn dedwyddwch,
  A'n mawl i'r Iesu byth.   Amen.

---

E. GRIFFITHS, ARGRAFFYDD, ABERTAWY.